Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Drefach Felindre**

**Neuadd Y Ddraig Goch**
**Drefach Felindre**
**Llandysul**
**SA44 5UG**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

08/06/2023

# Cylch Meithrin Drefach Felindre

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Sesiynol |
| Darparwr Cofrestredig | Pwyllgor Cylch Meithrin Drefach Felindre |
| Lleoedd cofrestredig | 14 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Hydref 2022 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Crynodeb


Arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, ac ar yr achlysur hwn, dim ond y themâu llesiant, gofal a datblygiad ac arweinyddiaeth a rheolaeth y gwnaethom eu hystyried.

Mae'r plant yn teimlo'n hapus ac wedi setlo yn y lleoliad ac mae ganddynt lais cryf. Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r staff yn dda. Mae'r plant yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad ac mae sgiliau annibyniaeth y plant yn datblygu'n dda.

Mae'r staff yn dilyn polisïau a gweithdrefnau mewn perthynas ag iechyd, diogelwch a llesiant y plant. Fodd bynnag, nid yw pob aelod o'r staff yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau amddiffyn plant pe byddai pryder. Mae'r staff yn rhyngweithio mewn ffordd gadarnhaol a chynnes â'r plant.

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad yn effeithiol. Mae'r unigolyn cofrestredig wedi sicrhau bod Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn cael ei hysbysu am newidiadau. Mae sesiynau goruchwylio ac arfarniadau blynyddol y staff yn cael eu cynnal yn barhaus ers yr arolygiad diwethaf. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod gwiriadau recriwtio bellach ar waith ar gyfer y staff. Mae'r partneriaethau â'r rhieni yn dda.

## Llesiant

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae’r plant yn teimlo'n hapus ac wedi setlo yn y lleoliad. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cyrraedd yn hapus ac yn chwarae â theganau ac yn ymgysylltu â meysydd sydd o ddiddordeb iddynt. Roedd rhai o'r plant a gyrhaeddodd yn mynd at y staff i gael cysur a mwythau ac yn setlo'n dda. Mae’r staff yn parchu teimladau ac anghenion y plant. Mae croeso iddynt ddod â theganau a blancedi cysur i'r lleoliad. Mae'r plant yn teimlo ymdeimlad o berthyn. Maent yn symud yn hwylus rhwng y gweithgareddau gan ddefnyddio teganau ac adnoddau sy'n gysylltiedig â phob maes chwarae a dysgu.

Mae gan y plant lais cryf. Maent yn dweud yn hyderus wrth y staff pan fyddant eisiau mwy o fyrbrydau a diodydd, ac yn sôn wrthynt yr hoffent chwarae ar y beiciau yn yr awyr agored. Mae'r plant yn mynegi eu barn yn dda. Maent yn mynegi eu dymuniadau yn ystod amser cylch drwy ddewis cân yr hoffent ei chanu. Gwrandewir ar y plant. Mae'r staff yn parchu eu dewis i symud i ffwrdd o'r ardal byrbrydau ar ôl iddynt orffen bwyta; ac yn parchu dymuniadau'r rhai hynny sydd am gael sgwrs gyda ffrindiau yn ystod amser cylch hefyd.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r staff yn dda. Mae'r plant yn mynd at y staff yn ddigymell i gael mwythau ac yn mynd atynt pan fyddant am gael cymorth i ddiwallu eu hanghenion personol. Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda. Maent yn dangos hoffter tuag at ei gilydd ac yn cyffroi wrth weld eu ffrindiau yn cyrraedd ac yn eu cofleidio. Mae'r plant yn teimlo ymdeimlad o gyflawniad pan fyddant yn chwarae. Maent yn gwenu wrth gael eu canmol am ateb cwestiynau ar ddyddiau'r wythnos a'r tywydd yn ystod amser cylch. Mae'r plant yn gwrando'n astud ac yn dangos ymddygiad cadarnhaol. Maent yn gwrando ar y staff sy'n dweud wrthynt y dylent fod yn ofalus yn yr ardal awyr agored ac yn ymateb yn gadarnhaol pan fydd y staff yn eu hannog i rannu teganau ac adnoddau, fel y camera digidol. Mae’r plant yn sensitif iawn i anghenion ei gilydd. Roeddent yn helpu eraill yn ystod amser byrbryd, gan arllwys llaeth i'w ffrindiau.

Mae'r plant yn mwynhau treulio amser yn y lleoliad. Maent yn dangos brwdfrydedd wrth ymgymryd â'u gweithgareddau, gan ganu caneuon Cymraeg am ddyddiau’r wythnos a ‘Mi Welais Jac y Do.’ Mae'r plant yn canolbwyntio am gyfnod addas o amser yn unol â'u hoedran a'u camau datblygiad. Gwnaethant wrando ar stori am eliffant gan enwi'r anifeiliaid yn y stori. Mae'r cyfleoedd chwarae a gynigir yn gyffrous i'r plant. Gwnaethant chwarae gyda'r deinosoriaid, gan chwerthin wrth fynd at yr oedolion i'w dychryn. Mae'r plant yn mwynhau gweithgareddau chwarae rôl. Gwnaethant frwsio gwallt y ddol a chwerthin wrth osod sbectol haul ar y tedi. Wrth chwarae yn yr awyr agored, gwnaeth y plant fwynhau mynd ar ôl swigod, rasio ceir a chwarae gyda'r hambwrdd dŵr yn fawr iawn.

Mae sgiliau annibyniaeth y plant yn datblygu'n dda. Maent yn gwbl ymwybodol o'u harferion dyddiol mewn perthynas â golchi dwylo, tacluso, amseroedd byrbryd a chwarae yn yr awyr agored. Mae 'helpwr y dydd' dyddiol yn gyfrifol am roi cwpanau a phlatiau i'r plant yn ystod amseroedd byrbryd. Mae'r plant yn arllwys eu llaeth eu hunain ac yn rhoi menyn ar graceri ar eu pen eu hunain. Mae'r plant yn datblygu sgiliau iaith, sgiliau corfforol a sgiliau creadigol da drwy chwarae.

## Gofal a Datblygiad

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae pob aelod o'r staff yn dilyn polisïau a gweithdrefnau mewn perthynas ag iechyd, diogelwch a llesiant y plant. Maent yn dilyn arferion hylendid da ac yn goruchwylio'r plant yn dda. Mae gan y rhan fwyaf o'r staff wybodaeth a dealltwriaeth dda o'r gweithdrefnau diogelu. Fodd bynnag, nid oedd pob aelod o'r staff yn sicr o'r gweithdrefnau i'w dilyn pe byddai pryder posibl o ran amddiffyn plant.

Mae'r staff yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'r plant yn ystod gweithgareddau chwarae a dysgu. Maent yn ymgysylltu'n llawn brwdfrydedd â diddordebau'r plant. Mae'r staff yn annog ac yn rheoli ymddygiad y plant mewn modd cadarnhaol. Maent yn eu hannog i rannu beiciau, ceir a'r camerâu digidol. Mae'r staff yn ofalgar ac yn sensitif tuag at y plant wrth iddynt gyrraedd y lleoliad, gan eu bod yn eu hadnabod yn dda iawn. Fodd bynnag, ar adegau prysur, megis cyn amser byrbryd ac yn ystod amser mynd i'r toiled, cafodd y trefniadau ar gyfer dyrannu'r staff effaith ar eu gallu i ymgysylltu â'r plant, ac ni chawsant eu dyrannu mewn ffordd lle gallent dynnu sylw, ennyn diddordeb a diddanu'r plant yn ystod y cyfnodau llai strwythuredig hyn.

Mae'r staff yn fodelau rôl da. Yn ogystal ag annog ymddygiad da, maent yn dangos sut i gyfrif yn Gymraeg ac yn adrodd dyddiau'r wythnos a'r tywydd yn Gymraeg. Mae'r staff yn annog y plant i ddangos a mynegi eu teimladau. Maent yn gofyn i'r plant sut maent yn teimlo ac yn trafod eu teimladau mewn ffordd sensitif. Mae'r staff yn sicrhau bod y plant yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad a bod digon o weithgareddau ac adnoddau ar gael iddynt ddatblygu eu sgiliau cymdeithasol, eu sgiliau corfforol, eu sgiliau iaith, eu sgiliau creadigol a'u sgiliau mathemategol dan do ac yn yr awyr agored.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad yn effeithiol. Mae'r unigolyn cofrestredig wedi gwneud gwelliannau sylweddol ers yr arolygiad diwethaf o'r lleoliad ac felly mae'r rhan fwyaf o'r achosion o ddiffyg cydymffurfio yn deillio o'r arolygiad diwethaf wedi'u bodloni.

Mae'r unigolyn cofrestredig wedi sicrhau bod Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn cael ei hysbysu am newidiadau. Mae wedi hysbysu AGC am newidiadau sylweddol a wnaed gan y lleoliad mewn perthynas â chau'r lleoliad ar ddiwrnodau penodol, trefniadau staffio a newidiadau i'r datganiad o ddiben. Yn ogystal, mae'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth wedi cael ei gwblhau eleni.

Mae sesiynau goruchwylio ac arfarniadau blynyddol y staff yn cael eu cynnal yn barhaus ers yr arolygiad diwethaf. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom dystiolaeth fod proses sefydlu fanwl ar waith ar gyfer aelod newydd o staff yn y lleoliad. Mae'r unigolyn cofrestredig yn sicrhau bod adroddiad cynnydd yn cael ei lunio ar gyfer y lleoliad a'r staff. Fodd bynnag, nid oes unrhyw sesiynau goruchwylio unigol yn cael eu cynnal ar gyfer y staff, a dywedodd y staff wrthym nad ydynt yn cael sesiynau goruchwylio un-i-un rheolaidd, felly mae'r maes i'w wella yn barhaus a chaiff ei ystyried yn ystod arolygiad nesaf y lleoliad.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod gwiriadau recriwtio ar waith ar gyfer y staff. Yn ystod yr arolygiad, nodwyd gennym fod ffeiliau pob aelod o'r staff yn bodloni'r gofynion rheoliadol a bod gan bob aelod o'r staff wiriadau cyfredol a gweithredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae gan yr unigolyn cyfrifol wiriad cyfredol a gweithredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Gwnaed cynnydd arwyddocaol o ran datblygu'r gweithdrefnau ar gyfer amddiffyn a diogelu plant ac o ran meithrin dealltwriaeth ohonynt. Mae gan yr unigolyn cyfrifol a'r person â chyfrifoldeb ddealltwriaeth dda o'r gweithdrefnau i'w dilyn pe bai pryder posibl mewn perthynas ag amddiffyn plant neu pe bai honiad yn cael ei wneud yn erbyn y lleoliad. Mae'r Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth o'r arolygiad blaenorol bellach wedi'i fodloni.

Mae'r partneriaethau yn dda. Mae'r rhieni a'r gofalwyr yn fodlon iawn ar y ffordd y caiff y lleoliad ei redeg. Maent yn teimlo bod eu plant yn hapus iawn yn y lleoliad, ac mae'r plant yn gwneud cynnydd da yn Gymraeg. Mae'r rhieni a'r gofalwyr o'r farn fod y staff yn gefnogol iawn ac yn hawdd mynd atynt. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad bartneriaethau a chydberthnasau da â'r sefydliadau sy'n eu cefnogi.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 20 | Nid yw'r Unigolyn Cyfrifol wedi sicrhau bod gan bob aelod o'r staff wiriad manylach dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), nid yw wedi sicrhau bod gan y staff ddealltwriaeth ddigonol o faterion diogelu plant, nid yw wedi sicrhau bod y staff wedi cael hyfforddiant cyfredol ac nid yw wedi sicrhau ei bod yn cwblhau gwiriadau addasrwydd ar gyfer aelodau o'r staff cyn iddynt ddechrau gweithio yn y gwasanaeth. Er mwyn diogelu'r plant yn llawn, rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau bod gan bob aelod o'r staff wiriad manylach dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, rhaid sicrhau bod yr holl wiriadau | Cyflawnwyd |

| | | |
|---|---|---|
| | addasrwydd ar waith a bod gan bob aelod o'r staff ddealltwriaeth ddigonol o faterion diogelu plant. | |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 29 | Nid yw'r Unigolyn Cyfrifol yn sicrhau bod sesiynau goruchwylio ac arfarniadau rheolaidd yn cael eu cynnal. Cafodd y person â chyfrifoldeb y sesiwn goruchwylio gyntaf a gofnodwyd ar ei chyfer yn y rôl hon ym mis Medi 2022, ar ôl cael gwybod am yr arolygiad ar y cyd. Nid yw ansawdd y cyfarfod goruchwylio yn effeithiol - ni thrafodwyd hyfforddiant gorfodol. Roedd dealltwriaeth y staff o faterion diogelu yn argymhelliad a wnaed yn ystod yr arolygiad diwethaf yn 2019. Fodd bynnag, nid oedd y Person â Chyfrifoldeb wedi cwblhau hyfforddiant Amddiffyn Plant ers 2016. Bu yn ei swydd fel Person â Chyfrifoldeb ers mis Medi 2020 (roedd yn ddirprwy cyn hynny). Nid oedd unrhyw sôn am hyfforddiant diogelu yn y cofnodion o'r cyfarfod goruchwylio. Nid oedd unrhyw sesiynau goruchwylio nac arfarniadau wedi'u cofnodi ar gyfer aelodau eraill o'r staff. Yn ogystal, nid yw hyfforddiant gorfodol yn cael blaenoriaeth. Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau bod sesiynau goruchwylio, arfarniadau a hyfforddiant gorfodol yn cael eu cwblhau'n effeithiol. | Adolygwyd |
| 31 | Nid yw'r Unigolyn Cyfrifol wedi hysbysu AGC am newidiadau o ran staff a phwyllgorau. Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol hysbysu AGC am unrhyw ddigwyddiadau o bwys a restrir yn y rheoliadau. | Cyflawnwyd |
| 6 | Nid yw tystysgrif Datgelu a Gwahardd yr Unigolyn | Cyflawnwyd |

| | | |
|---|---|---|
| | Cyfrifol yn gyfredol | |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| **Safonau Gofynnol Cenedlaethol** | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 20 - Amddiffyn plant | Sicrhau bod gan bob aelod o'r staff wybodaeth am y gweithdrefnau diogelu / amddiffyn plant a dealltwriaeth ohonynt |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| **Arferion Gorau** |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Trefnu cyfrifoldebau'r staff mewn ffordd addas er mwyn iddynt allu tynnu sylw, ennyn diddordeb a diddanu'r plant yn llwyddiannus. |

## A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 11/08/2023